| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Rhagfyr 2012** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Canolbwynt Comisiynu Gogledd Cymru** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Diweddaru ar Canolbwynt Comisiynu Gogledd Cymru** |

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cynnydd wrth ddatblygu Canolbwynt Comisiynu Gogledd Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol, iechyd a lleoliadau cartref gofal addysg (gweler trosolwg yn atodiad 1).

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Cyflwyno gwybodaeth ynghylch gweithredu Canolbwynt Comisiynu Gogledd Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Pwyllgor:

3.1 yn trafod ac yn cyflwyno sylwadau ar gynnwys yr adroddiad; ac

3.2 yn penderfynu a yw'n dymuno monitor a gwerthuso, yn achlysurol, effeithiolrwydd y Canolbwynt wrth gomisiynu gwasanaethau o ansawdd a gwireddu gwerth am arian.

## 4. Manylion yr adroddiad

Prosiect ar y cyd rhwng 6 Chyngor gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw Canolbwynt Comisiynu Gogledd Cymru. Mae'n unigryw yng Nghymru, yn pontio gwasanaethau plant ac oedolion ac mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Cafodd ei sefydlu ar sail Achos Busnes Llawn ac mae'n cael ei gynnal gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae'n atebol i Fwrdd Rheoli, sy'n cael ei gadeirio gan Sally Ellis.

Dechreuodd yr aelod cyntaf o staff, un o dî m o bedwar, yng nghanol mis Mai 2012 ac o'r 1af Hydref mae staff y tî m yn gyflawn.

Mae gan y Canolbwynt bedair prif swyddogaeth:

- Sicrhau gwerth am arian mewn lleoliadau sy’n ddrud i’w cynnal ar hyn o bryd.
- Canfod lleoliadau newydd trwy broses dryloyw a sicrhau gwerth am arian.
- Monitro ansawdd y gwasanaethau
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r farchnad i sicrhau fod gwasanaethau’n gallu cyrraedd y gofyn ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Yn ystod y tri mis diwethaf mae’r Canolbwynt wedi datblygu’r systemau a’r gweithdrefnau sylfaenol sy’n ei alluogi i weithio’n effeithiol. Buddsoddwyd hefyd mewn cyfarfod â thimoedd gweithredol yr holl bartneriaid i sicrhau fod swyddogaeth y Canolbwynt yn cael ei ddeall a bod newidiadau mewnol yn cael eu gwneud i gyd-fynd â hynny. Mae rhaglen waith ynghlwm fel atodiad 2.

Hyd yn hyn, cafwyd arbedion ariannol blynyddol o £298,000 sy’n cynnwys arbedion o £20,000 i Gyngor Sir Ddinbych.
Yn ogystal ag osgoi costau o £27,000 ar draws y rhanbarth, mae yna hefyd arbedion blynyddol o £209,000 yn codi o drafod ar leoliadau cartref gofal Anableddau Dysgu.

Mae Canolbwynt Comisiynu Gogledd Cymru wedi canfod 51 o leoliadau rhwng Awst a Thachwedd 2012.

Mae’r gwaith arall sydd ar y gweill yn cynnwys datblygu Fframwaith Darparwyr Cymeradwy rhanbarthol ar gyfer lleoliadau preswyl plant a fframwaith monitro ansawdd gwasanaethau oedolion.

Wedi datblygu’r fframwaith, mae’r Swyddog Monitro Ansawdd wedi trefnu cynnal ymweliadau ar ran Sir Ddinbych.

**5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Canolbwynt Comisiynu Gogledd Cymru’n cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol:

- Gwarchod pobl fregus a sicrhau eu bod yn gallu byw mor annibynnol â phosibl
- Moderneiddio’r Cyngor i ddarparu arbedion ac i wella gwasanaethau i’n cwsmeriaid.

**6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

£12,615 yw cyfraniad Cyngor Sir Ddinbych at y gost flynyddol o redeg Canolbwynt Comisiynu Gogledd Cymru.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

Ymgynghorwyd â’r holl bartneriaid ar yr Achos Busnes Llawn. Mae’r Canolbwynt yn dechrau cysylltu ar hyn o bryd â’r Darparwyr ar y datblygiadau arfaethedig.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Dylai'r prosiect helpu sicrhau fod y Cyngor yn cael gwasanaethau o ansawdd da sy'n rhoi gwerth am arian. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn rhagdybio y gwneir arbedion ariannol eleni o £25,000, sy'n ymddangos yn gyraeddadwy, a £100,000 y flwyddyn nesaf. Dylai systemau fod wedi'u sefydlu i sicrhau y gellir meintoli'r arbedion ariannol ac anariannol er mwyn addasu cyllidebau yn ôl y gofyn.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae matrics risg wedi'i baratoi i'r Bwrdd Rheoli ond heb ei drafod na'i gytuno hyd yma.

## 10. Yr Hawl i Benderfynu

Erthygl 6 o Gyfansoddiad y Cyngor.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr, Canolbwynt Comisiynu Gogledd Cymru
Ffôn: 01824 706637